

Cais am hysbysiad ymlaen llaw ynghylch datblygiad ym maes amaethyddiaeth neu goedwigaeth – ffordd arfaethedig.

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

Atodlen 2, rhannau 6 a 7

1. Manylion yr ymgeisydd

Nodwch fanylion yr ymgeisydd gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r côd post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

2. Manylion yr asiant

Nodwch fanylion yr asiant gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r côd post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

3. Manylion cyfeiriad y safle

Nodwch gyfeiriad post llawn y safle. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n briodol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir a'r côd post llawn hefyd. Os yw'r cais yn ymwneud â thir agored, disgrifiwch leoliad y tir mor glir ag sy'n bosibl (e.e. '*Y tir y tu ôl i rif 12 - 18 Stryd Fawr*') neu darparwch gyfeirnod grid.

Pan fyddwch yn cyflwyno cynllun safle, argymhellir y dylai'r cynllun gael ei lunio ar raddfa o 1:1250 neu 1:2500 (neu fwy) ac y dylai ddangos o leiaf dwy ffordd a enwir ynghyd â'r adeiladau sydd o amgylch y safle. Dylid nodi rhifau neu enwau'r adeiladau a ddangosir ar y cynllun er mwyn sicrhau bod union leoliad y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn cael ei ddangos yn glir.

Rhaid tynnu llinell goch yn glir ar y cynllun i ddangos ymyl y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Dylai'r safle a ddangosir gynnwys yr holl dir sydd ei angen i gyflawni'r datblygiad arfaethedig (e.e. y tir sydd ei angen er mwyn mynd i mewn i'r safle o briffordd gyhoeddus, creu lleiniau gwelededd (mynedfa o amgylch cyffordd neu fynedfa arall, a ddylai fod yn ddirwystr), tirlunio, parcio, a chreu ardaloedd agored o amgylch adeiladau).

Rhaid tynnu llinell las ar y cynllun o amgylch unrhyw dir arall y mae'r ymgeisydd yn berchen arno sy'n agos i'r safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu sy'n ffinio â'r safle hwnnw.

Rhaid llunio pob cynllun yn ôl graddfa fetrig, rhaid i unrhyw fesuriadau gael eu rhoi mewn metrau, a dylid cynnwys bar graddfa ar y cynllun hefyd. Dylai pob cynllun ddangos i ba gyfeiriad y mae'r Gogledd.

4. Ffordd arfaethedig

Bydd yr hyn a gaiff ei ystyried yn waith 'newid' neu 'ailosod' ffordd fferm neu ffordd coedwig yn ymwneud â ffeithiau a graddau, a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos dan sylw. Os ydych yn bwriadu gwneud gwaith ar ffordd sy'n bodoli eisoes, dylech gysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol ymlaen llaw er mwyn trafod eich bwriad.

5. Datblygiadau ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth

Ni chaniateir datblygiadau ar ddarnau unigol o dir llai na hecтар o faint ar ddaliadau sydd â chyfanswm o dros bum hecтар. Ni chaniateir datblygiadau ar ddarnau unigol o dir llai na 0.4 hecтар o faint ar ddaliadau sydd â llai na phum hecтар. Darn unigol o dir yw tir a gaiff ei wahanu gan briffordd gyhoeddus neu dir y mae rhywun arall yn berchen arno, er enghraifft.

'Ffordd fetlin' yw ffordd ag wyneb caled sy'n cynnwys asffalt, concrit, cerrig palmant, brics, cerrig crwn ac ati.

6. Gofynion cais am ganiatâd cynllunio a gofynion lleol

Ceir gofynion ar ddwy lefel – gofynion cenedlaethol a gofynion lleol:

- Cenedlaethol – Defnyddiwch y rhestr wirio i sicrhau bod y ffurflenni wedi'u llenwi'n gywir a bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno.
- Lleol – Bydd yr awdurdod cynllunio lleol wedi cynhyrchu dogfen (a fydd ar gael fel arfer ar ei wefan) sy'n nodi unrhyw wybodaeth benodol, yn ychwanegol at y gofynion cenedlaethol, y bydd angen ei chyflwyno gyda'r cais.

Gallai methu llenwi'r ffurflen yn gywir neu fethu darparu lluniadau digon manwl neu wybodaeth ategol berthnasol arall olygu bod eich cais yn cael ei anfon yn ôl atoch am ei fod yn annilys.

7. Datganiad

Llofnodwch eich cais a nodwch y dyddiad arno.

8. Manylion cyswllt yr ymgeisydd

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr ymgeisydd.

9. Manylion cyswllt yr asiant

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr asiant.

10. Ymweld â'r safle

Efallai y bydd y swyddog achos yn gofyn am gael mynd i mewn i'r safle (h.y. y safle lle bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei wneud). Darparwch fanylion cyswllt rhag ofn y bydd angen gwneud apwyntiad. Bydd hynny'n helpu'r cyngor i ddelio â'ch cais cyn gynted ag sy'n bosibl.